CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI,
CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw/Cyfeiriad y Darparwr:	Cwmgelli Lodge, Lôn Pennant, Coed Duon, Caerffili, NP12 1BR
Dyddiad yr Ymweliad:	Dydd Mercher 19 Hydref 2022
Swyddog(ion) sy'n Ymweld:	Amelia Tyler: Swyddog Monitro Contractau
Yn Bresennol:	Stacey Morgan: Dirprwy reolwr, Fieldbay Donna Shire: Dirprwy bennaeth therapi, Fieldbay

1. Cefndir

1.1 Mae Cwmgelli Lodge yn gartref gofal mawr pwrpasol sydd wedi'i leoli yn agos i dref Coed Duon gyda mynediad hawdd i'r holl fwynderau lleol. Mae wedi'i adeiladu dros 2 lawr ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i 26 o bobl sydd ag anghenion nyrsio ac iechyd meddwl, i gynnal gweithgareddau byw bob dydd.

1.2 Ar adeg yr ymweliad doedd dim lleoedd gwag. Cydnabuwyd bod dau o'r trigolion wedi cael cymorth i symud gan CBS Caerffili.

1.3 Daeth y cartref yn rhan o gwmni Fieldbay ym mis Hydref 2020, ac er bod nifer o ymweliadau wedi'u cwblhau gan y bwrdd iechyd lleol, gweithwyr cymdeithasol, eiriolwyr, a'r swyddog monitro contractau, dyma'r ymweliad ffurfiol cyntaf i gwblhau'r templed monitro.

1.4 Yn ogystal â chwblhau'r templed, pwrpas yr ymweliad hefyd oedd siarad gyda staff, preswylwyr, a ffrindiau/perthnasau preswylwyr, er mwyn cael eu barn am y gwasanaeth.

1.5 Yn dibynnu ar y canfyddiadau o fewn yr adroddiad hwn, gellir rhoi camau cywirol a datblygiadol i'r Rheolwr i'w cwblhau. Camau cywirol yw rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (sy'n cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth ac ati), a chamau datblygiadol yw'r rhai y bernir eu bod nhw'n arfer da.

2. Argymhellion Blaenorol

2.1 Gan mai hwn yw'r adroddiad monitro llawn cyntaf ar gyfer y cartref hwn, nid oes argymhellion blaenorol.

3. Canfyddiadau'r ymweliad

3.1 Yr Unigolyn Cyfrifol

3.1.1 Darparwyd copi o'r adroddiad rheoliad 73 chwarterol a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol, a chynhaliwyd yr ymweliad diweddaraf ar 25 Awst 2022. Ni amlygwyd unrhyw gamau yn

yr adroddiad hwn ac eglurwyd bod yr ymweliad nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer 9 Tachwedd.

3.1.2 Nododd y swyddog monitro contractau fod y datganiad pwrpas wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio i ddarparu manylion y rheolwr cofrestredig. Nodwyd bod y ddogfen wedi ei dyddio fel 8 Medi 2022 ond nid oedd yn darparu dyddiad o'r adolygiad arfaethedig nesaf; argymhellir i hyn yn cael ei gofnodi fel nodyn atgoffa, ac er mwyn tystiolaethu bod hynny'n cael ei adolygu yn flynyddol o leiaf.

3.1.3 Pe bai'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn absennol yn annisgwyl am gyfnod, nodwyd y byddai'r cartref yn cael ei gynorthwyo gan uwch dîm rheoli a'r dirprwy bennaeth therapi. Nodwyd hefyd, gan fod Fieldbay yn ddarparwr mawr, y gallen nhw hefyd ddefnyddio staff o gartrefi eraill os oes angen.

3.1.4 Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael yn electronig, megis atgyfeiriadau a derbyniadau, diogelu, cyllid cleientiaid, rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau ac ati. Nodwyd bod y rhan fwyaf o bolisïau wedi'u hadolygu yn 2022. Cafodd y polisi datblygu staff (goruchwyliaeth) ei anfon ymlaen yn dilyn yr ymweliad, ac roedd hyn wedi cael ei adolygu ym mis Medi 2020. Nid oedd y polisi disgyblaeth staff wedi ei ddyddio, ond fe welwyd bod hyn wedi ei uwchlwytho ym mis Ebrill 2022. Mae'n arfer da cofnodi'r dyddiad adolygu ar yr holl bolisïau a gweithdrefnau a beth yw dyddiad yr adolygiad arfaethedig nesaf.

3.2 <u>Rheolwr cofrestredig</u>

3.2.1 Eglurwyd bod TCC ond yn cael ei ddefnyddio ar flaen a chefn yr adeilad at ddibenion diogelwch. Ar adeg yr ymweliad, dywedodd y dirprwy reolwr nad oedd unrhyw broblemau yn ymwneud â'r eiddo a bod yr holl offer yn gweithio'n iawn.

3.2.2 Gall preswylwyr y cartref newid tymheredd y rheiddiaduron yn eu hystafelloedd, ond efallai nad oes ganddyn nhw y gallu, nac yn gallu gwneud hyn yn gorfforol, ac felly maen nhw'n cael eu monitro gan staff sy'n gweithio yng Nghwmgelli.

3.2.3 Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau nad oedd unrhyw hysbysiadau rheoliad 60 yn weddill, ac anfonwyd copi o'r hysbysiad a oedd yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am absenoldeb hirdymor y rheolwr cofrestredig at y tîm comisiynu ar ddiwrnod yr ymweliad.

3.2.4 Nid oedd angen atgyfeiriadau allanol yn aml, oherwydd y tîm mawr mewnol o therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith, tîm trin â llaw, seiciatrydd, a staff Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol. Dywedodd y dirprwy reolwr fod dietegwyr, optegwyr, awdiolegwyr, ciropodydd, a meddygon teulu yn cael eu cyrchu fel a phryd y mae eu hangen. Roedd yr atgyfeiriadau allanol diweddaraf wedi cynnwys ceisiadau yn mynd drwodd i'r feddygfa ar gyfer ymweliadau cartref ar 12 Hydref a 13 Hydref, ar gyfer gwahanol breswylwyr. Cofnodwyd hyn ar y system electronig.

3.2.5 Roedd y ddau ffeil a welwyd ar gyfer y preswylwyr a leolwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys cytundebau diogelu rhag colli rhyddid, a soniwyd bod un o'r rhain ar fin dod i ben, ond roedd aseswr wedi bod allan i gwblhau'r ddogfennaeth yr wythnos flaenorol.

3.2.6 Dywedodd y dirprwy reolwr eu bod yn teimlo bod yr unigolyn cyfrifol yn ei gynorthwyo, a'u bod bob amser yn ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau. Yn dilyn yr ymweliad, cafodd y swyddog monitro contractau wybod mai Matthew Reade fydd yr unigolyn cyfrifol sy'n cymryd yr awenau oddi wrth Paula Lewis, (a fydd yn parhau fel y Cyfarwyddwr Rheoli ac yn parhau i ymweld â safle Cwmgelli Lodge) a bellach mae wedi cofrestru'n llwyddiannus gyda Thŷ'r Cwmnïau ac mae wedi cyflwyno cais i AGC, ac yn disgwyl cael cadarnhad yn dilyn y cyfweliad â'r AGC.

3.3 Archwiliad pen-ddesg

3.3.1 Roedd hyfforddiant gorfodol fel codi a chario, hylendid bwyd, diogelu, rheoli heintiau, cymorth cyntaf a meddyginiaeth i gyd yn bresennol ar y matrics hyfforddiant a ddarparwyd.

3.3.2 Amlinellodd y wybodaeth a ddarparwyd gan Gwmgelli eu bod nhw'n cydymffurfio â 97% o'r hyfforddiant gorfodol ar ddiwrnod yr ymweliad. Roedd yn anodd penderfynu pryd y mynychwyd yr hyfforddiant gan nad oedd hyn wedi'i gofnodi ar y matrics ac ni roddwyd y cyfnodau gloywi h.y. i'w fynychu'n flynyddol, 3 blynedd ac ati. I wneud y matrics yn fwy tryloyw, dylid ystyried ychwanegu'r dyddiad hyfforddiant diwethaf neu hyd y dilysrwydd. Dylid rhoi dyddiadau llawn i leihau unrhyw ddryswch.

3.3.3 Roedd y matrics wedi'i godio â lliw i nodi unrhyw hyfforddiant hwyr, pryd y mae i ddod i ben ac a oedd yr aelod o staff yn ddechreuwr newydd, felly dal yn y broses o gwblhau'r holl hyfforddiant angenrheidiol.

3.3.4 Mae cyrsiau nad ydyn nhw'n orfodol fel hyfforddiant clefyd Huntington (pellach) yn gwrs hyfforddiant ffurfiol, a gyflwynir wyneb yn wyneb ac fe'i darperir yn Birmingham a Llundain. Ar adeg yr ymweliad roedd 3 cleient â'r cyflwr, ac mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth a chymorth i'r staff i ddarparu gofal penodol i'r cleient.

3.3.5 Tynnodd y dirprwy reolwr sylw hefyd at y ffaith bod gofal anymataliaeth, hyfforddiant adrodd a chofnodi, Makaton a gweithdai iechyd meddwl anffurfiol hefyd yn cael eu mynychu. Yn ogystal, cynhelir cynadleddau anafiadau i'r ymennydd hefyd yn Abertawe, gyda dau aelod o staff wedi'u dyrannu gan y rheolwr cartref yn bresennol.

3.4 Staffio a Hyfforddiant

3.4.1 Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau fod o leiaf dwy nyrs ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r prynhawn ac un nyrs drwy gydol y nos. Eglurwyd bod pum ymarferydd gofal iechyd yn ystod y bore, saith yn ystod y prynhawn, ac o leiaf saith yn ystod y nos.

3.4.2 Mae rhai staff a allai gael eu contractio i weithio boreau, a gallai rhai weithio sifft cyfnos o 6pm i hanner nos. Mae yna hefyd gydlynydd gweithgareddau sydd wedi'i gontractio i weithio 36 awr yr wythnos; tair sifft o ddeuddeg awr, er y gellir gweithio hyn yn hyblyg.

3.4.3 Nid oedd staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio gan y cartref ers amser maith adeg yr ymweliad, ac eglurwyd mai dim ond fel dewis olaf y byddai hyn yn cael ei gyrchu.

3.4.4 Defnyddir e-Ddysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth gan Gwmgelli, a thrafodir ansawdd yr hyfforddiant yn ystod goruchwyliaeth. Mae'r system eLFY (sef “electronic learning for you”) hefyd yn rhoi syniad o lefel y ddealltwriaeth trwy brofion diwedd cwrs. Mae hyfforddeion yn cael ffurflen werthuso i wneud sylw ar yr hyfforddiant, a gofynnir i'r aseswyr hefyd raddio lefel y rhyngweithio gan y staff.

3.4.5 Dywedwyd nad oedd staff yn gweithio dros 48 awr yr wythnos yn rheolaidd; y contract mwyaf yw 44 awr yr wythnos ac eglurwyd y byddai'r system glocio yn amlygu’n goch pe bai unrhyw un yn gweithio dros eu horiau contract.

3.4.6 Doedd y cynnig gweithredol ddim yn cael ei weithredu yn y cartref, ond cydnabuwyd pan gafodd yr ymweliad ei gynnal nad oedd staff na phreswylwyr a oedd yn siarad Cymraeg.

3.4.7 Nid oedd ffeiliau staff ar gael yn y cartref, ac fe gafodd y wybodaeth yma ei danfon dros e-bost yn dilyn yr ymweliad. Roedd y ddau ffeil yn cynnwys disgrifiadau swydd, ffurflenni cais, contract cyflogaeth wedi'i lofnodi, copïau o'u pasbortau a gwiriadau GDG.

3.4.8 Nid oedd gan yr un o'r ddau ffeil 2 eirda ar gael (mae'n rhaid i o leiaf un ohonyn nhw fod gan gyflogwr blaenorol). Roedd cofnodion cyfweliad yn bresennol ar y ddwy ffeil, fodd bynnag, nododd y swyddog monitro contractau fod gan un o'r cofnodion hyn dystiolaeth o 1 cyfwelydd yn unig: mae'n arfer da i bob cyfweliad gael ei gynnal gan ddau aelod o staff rhag ofn i’r canlyniad gael ei herio.

3.4.9 Nodwyd mai dim ond un o'r ffeiliau oedd â llun o'r aelod o staff, a dyma pryd roedden nhw’n gwisgo masg wyneb oherwydd cyfyngiadau Covid. Mae'n ofyniad deddfwriaethol bod y ddau ffeil yn cynnwys llun diweddar, a dylai'r rhain fod yn glir a heb unrhyw orchuddion wyneb. Cadarnhawyd yn dilyn yr ymweliad, bod y darparwr yn y broses o adnewyddu pob ffotograff.

3.8 <u>Goruchwylio a gwerthuso</u>

3.5.1 Eglurwyd bod goruchwyliaethau'n cael eu cynnal ar sail ffurfiol a chyfrinachol wyneb yn wyneb. Roedd dau aelod o staff a ddangoswyd mewn coch ar y matrics a ddarparwyd, a oedd yn nodi eu bod nhw’n hwyr, ond eglurodd y dirprwy reolwr fod y rhain wedi'u cwblhau cyn yr ymweliad.

3.5.2 Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau fod goruchwyliaethau yn cael eu cynnal fel sgwrs ddwyffordd ac mae disgwyl i'r aelod staff gyfrannu'r hyn maen nhw'n teimlo eu bod wedi'i wneud yn dda, yr hyn maen nhw'n teimlo y gellid ei wella arno, ac unrhyw nodau/uchelgeisiau, anghenion hyfforddiant ac ati.

3.5.3 Nid oedd tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i gadarnhau bod yr aelodau staff yn derbyn gwerthusiadau blynyddol.

3.6 <u>Archwiliad ffeiliau a dogfennaeth</u>

3.6.1 Nodwyd mai dim ond un o'r ddwy ffeil a welwyd ar y system electronig oedd ag asesiad cychwynnol; mae'n ofyniad deddfwriaethol i bob preswylydd gael asesiad wedi'i gwblhau (neu gynllun personol cychwynnol) cyn dechrau'r gwasanaeth.

3.6.2 Roedd cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn lle, a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl a fyddai'n hanfodol i aelodau newydd o staff sy'n gweithio gyda'r cleientiaid e.e. mae seibiannau sigaréts yn cael eu rheoli'n ofalus, mae ganddyn nhw chwant bwyd bach ond yn hoffi eu prydau bwyd yn eu bowlen werdd, a byddan nhw'n dewis eu pryd eu hunain y bydd angen eu torri'n feintiau hylaw, dwy botel ddŵr y bydd angen eu llenwi gan staff. Er na chafodd y cynlluniau personol eu harwyddo, roedd rhywfaint o wybodaeth wedi ei gofnodi o gwmpas pwy oedd wedi bod yn rhan o gasglu'r wybodaeth.

3.6.3 Roedd asesiadau risg addas ar waith i ddiwallu anghenion y cleient, ac roedd y rhain yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddarparwyd ar y cynlluniau personol**.** Roedd y cynlluniau personol, a'r asesiadau risg ar y ffeiliau a welwyd, wedi cael eu hadolygu o leiaf bob tri mis (neu'n gynt os oedd angen). Rhoddodd un o'r adolygiadau lawer o wybodaeth ynghylch y cymorth emosiynol oedd ei hangen a'r cymorth a roddwyd mewn perthynas â syndrom Asperger.

3.6.4 Rhoddodd y cofnodion dyddiol rywfaint o wybodaeth ddefnyddiol a manylion ynghylch dewisiadau unigol, e.e. profwyd ymddygiad heriol yn y gymuned ac nid oedd e'n hapus gyda'i osgo yn ei gadair olwyn. Cofnodwyd bod gan y cleient lawer o ymwneud â'i dad ac mae e'n mwynhau mynd i'r orsaf ambiwlans gerllaw. Cafodd ei gofnodi ar ffeil bersonol arall bod y cleient wedi bod yn rhan o lunio'r ddogfen ac yn hoffi unrhyw beth sy'n ymwneud â Bob Marley. Roedd gwybodaeth ar gael am y nodiadau dyddiol o ran gwylio'r teledu a deffro'n hwyr yn y bore ar un achlysur, ond doedd dim llawer o fanylion ynghylch eu lles a sut yr oedden nhw'n cyflwyno.

3.6.5 Roedd gwybodaeth ar gael o ran nodau/canlyniadau y cytunwyd arnyn nhw fel mynd i siopa, ymweld â bedd perthynas ac ati, ond roedd hyn yn gyfyngedig iawn. Argymhellir bod mwy o dystiolaeth yn cael ei gofnodi fel tystiolaeth am sut mae aelodau staff yn cynorthwyo eu cleientiaid i gyrraedd eu nodau unigol.

3.6.6 Roedd llawer o wybodaeth am weithgareddau amrywiol sydd wedi'u trefnu yn y cartref a thu allan; gwelwyd lluniau o nifer o breswylwyr yn mwynhau pryd bwyd cerfdy yn un o'r chwaer gartrefi a gwelwyd fideo hefyd o breswylydd arall yn mwynhau diwrnod allan ar y llethr sgïo sych ym Mhen-bre. Roedd yna fanylion am unigolion yn mwynhau cerdded yn yr ardal leol. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd un dyn yn mynd i siopa yng Nghwmbrân ac yn cael KFC am ginio.

3.6.7 Gwelwyd rhaglen weithgareddau yn ardal y cyntedd ac roedd cynlluniau i wneud celf a chrefft er mwyn gwneud addurniadau Calan Gaeaf ar 18 Hydref, parti cerfio pwmpen ar 26 Hydref a pharti karaoke gyda bingo ar 31 Hydref.

3.7 <u>Sicrhau Ansawdd</u>

3.7.1 Eglurwyd bod pedwar canmoliaeth wedi eu derbyn ym mis Mehefin 2021, tuag adeg Jiwbilî'r Frenhines, gan ganmol staff am eu gofal a'u cymorth.

3.7.2 Darparwyd cofnodion y pedwar cyfarfod tîm blaenorol: roedd y rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a'r dyddiadau olaf oedd 10 Ebrill, 6 Gorffennaf, 4 Awst a 12 Hydref. Braf oedd gweld enwau'r mynychwyr yn cael eu cofnodi ac argymhellir nodi'r cadeirydd hefyd ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Roedd materion a drafodwyd yn ymwneud â chyfathrebu

â staff arlwyo a domestig pan fydd preswylydd newydd yn symud i mewn, dileu'r system gweithwyr allweddol gan nad oedd hyn wedi bod yn llwyddiannus, rota'r Nadolig, pryd bwyd Nadolig, ymddygiad staff, a lefelau staffio domestig.

3.7.3 Er nad yw'r staff yn darllen ac yn arwyddo'r cofnodion, eglurwyd bod y rhain ar gael ar ôl eu cwblhau drwy'r system electronig, ac mae'r dirprwy reolwr yn gallu gweld pwy sydd wedi eu darllen.

3.7.4 Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo ddwywaith y dydd ac eglurwyd y dylai hyn fod yn haws pan fydd y system electronig 'Nourish' newydd yn cael ei gweithredu. Mae'r nyrs sy'n dod â'r sifft i ben yn arwain y cyfarfod ac mae'r ymarferwyr gofal iechyd yn cael eu hannog i gyfrannu at y broses er mwyn sicrhau bod unrhyw wybodaeth bwysig yn cael ei chofnodi. Mae pob ymarferydd gofal iechyd sy'n dechrau sifft yn mynychu'r cyfarfod, felly maen nhw'n ymwybodol o unrhyw newidiadau.

3.7.5 Cofnodwyd driliau tân, ac roedd y 2 flaenorol wedi'u cwblhau ar 31 Awst a 20 Rhagfyr 2022. Roedd cofnod o ba mor hir y cymerodd y weithdrefn a nodwyd unrhyw gamau angenrheidiol.

3.8 Holiadur staff

3.8.1 Siaradwyd ag un o'r ymarferwyr gofal iechyd yn ystod yr ymweliad; esboniwyd pe byddai un o'r preswylwyr wedi cynhyrfu, y bydden nhw'n mynd â nhw i'w hystafell ac yn treulio ychydig o amser gyda nhw i weld a allen nhw ddod o hyd i'r rheswm. Rhoddir cymorth emosiynol yn bennaf drwy sicrwydd ac, os nad ydyn nhw'n gallu cyfathrebu ar lafar, edrych am unrhyw newidiadau i'w hymddygiad.

3.8.2 Eglurwyd, oherwydd ei rôl, nad oes llawer o amser iddi allu gymryd cleientiaid allan yn y gymuned, serch hynny, roedd tystiolaeth bod cleientiaid yn mynd allan, naill ai gyda theulu neu aelodau eraill o staff.

3.8.3 Drwy gydol y sgwrs, dangosodd yr aelod o staff wybodaeth drylwyr am y cleientiaid yn y cartref ac esboniodd y pethau pwysicaf y byddai angen i aelod newydd o staff eu gwybod. Gan fod yna gleientiaid yng Nghwmgelli gyda thrafferthion cyfathrebu, eglurwyd eu bod yn defnyddio cardiau fflach, cwestiynau ie neu na, byrddau pen ac ati. Cynhaliwyd trafodaeth o gwmpas defnyddio lluniau i gynorthwyo gyda dealltwriaeth e.e. gwahanol weithgareddau neu opsiynau bwyd. Teimlwyd y gallai lluniau o'r prydau go iawn fod yn fwy ystyrlon, gan y gall fod yn adlewyrchiad mwy cywir o'r hyn sy'n cael ei weini, yn enwedig os ydyn nhw ar ddeiet wedi'i feddalu.

3.8.4 Ymatebodd yr aelod o staff eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n gallu bod yn hyblyg yn eu rôl a'u bod yn cael cyfle i allu eistedd a siarad â'r preswylwyr. Gofynnodd y swyddog monitro contractau beth fyddan nhw'n gwneud pe bai ganddyn nhw gyfnod tawel ac roedden nhw'n teimlo y byddai'r cleientiaid yn elwa o ryw fath o ysgogiad, dywedodd yr ymarferydd gofal iechyd y byddai'n dibynnu ar yr unigolyn; efallai y byddan nhw'n cynnig steilio eu gwallt, paentio eu hewinedd, gwylio ffilm, darllen drwy'r papur newydd, neu jyst cael sgwrs gyda nhw.

3.8.5 Cafwyd trafodaeth ynghylch diogelu a beth fydden nhw'n ei wneud petaent yn arsylwi arfer gwael ac eglurwyd y bydden nhw'n delio â hyn ar unwaith a'r peth cyntaf byddai'n

gofyn i'r aelod o staff dynnu eu hunain o'r dasg yr oedden nhw'n ei chyflawni. Dywedon nhw y bydden nhw'n sicrhau bod y cleient yn iawn, yn adrodd ac yn cofnodi'r hyn oedd wedi digwydd ac yn uwchgyfeirio'r mater i uwch aelod priodol o staff.

3.9 Holiadur preswylwyr

3.9.1 Siaradodd un o'r dynion sy'n byw yng Nghwmgelli gyda'r swyddog monitro contractau i siarad am y gwasanaeth; fe wnaethon nhw esbonio eu bod nhw'n mwynhau mynd i'r orsaf ambiwlans rownd y gornel, a'u bod nhw wedi cyfarfod rhai o'r parafeddygon sy'n gweithio yno. Roedden nhw'n falch o ddangos lanyard a beiro a roddwyd iddyn nhw. Dywedon nhw eu bod nhw'n mwynhau'r bwyd yn y cartref yn ogystal â bwyta allan.

3.9.2 Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth yr hoffen nhw fwyta nad oedd ar y fwydlen ar hyn o bryd, fe atebon nhw y bydden nhw'n hoffi pizza. Siaradodd yr aelod o staff â'r cleient, ac fe wnaethon nhw drafod pizza parod a oedd wedi cael ei archebu'r penwythnos cynt.

3.9.3 Gofynnodd y swyddog monitro contractau a oedden nhw'n hapus yn y cartref ac fe ddywedon nhw ie, oherwydd y gofalyddion. Dywedon nhw eu bod nhw'n dod ymlaen yn dda gyda'u gweithiwr allweddol a'u bod nhw'n ei gynorthwyo gyda'r gweithgareddau y mae am eu gwneud. Dywedon nhw y gallen nhw siarad â'r tîm staff am unrhyw beth ond maen nhw'n mwynhau unrhyw beth sy'n ymwneud ag amserlen bysiau Stagecoach ac ambiwlansys.

3.9.4 Pan ofynnwyd iddo a yw'r gofalydd yn ymateb yn brydlon pan oedd eu hangen, dywedodd eu bod nhw yn, ac yn methu meddwl am unrhyw beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Braf oedd clywed bod ganddo fe lawer o fewnbwn gan ei dad, ac eglurodd hefyd iddo gael ymweliad gan ei ffrind gorau'r wythnos flaenorol.

3.9.5 Gwelwyd rhyngweithio da rhwng y cleient a'r aelod o staff pan ofynnodd am ddiod; cafodd ddewis a chafodd ei annog i wneud cymaint ag y gallai yn annibynnol.

3.10 Holiadur perthnasau

3.10.1 Dim ond un perthynas roedd y swyddog monitro contractau yn gallu cysylltu â nhw, felly siaradodd â nyrs seiciatrig gymunedol sydd wedi bod yn ymwneud llawer ag un o'r dynion yn y cartref; esboniodd y nyrs seiciatrig gymunedol nad oedd e wedi bod allan i ymweld â'r cleient yn ddiweddar, ond nad oedd ganddo fe unrhyw bryderon ynghylch y gofal a ddarparwyd. Amlygon nhw fod y dyn yn mwynhau'r ardd yn y tywydd cynhesach ac yn treulio llawer o amser yn gwisgo sbectol haul, yn torheulo.

3.10.2 Eglurwyd bod y gofalydd yn adnabod yr unigolyn yn dda ac yn ei gynorthwyo yn y ffordd mae'n dymuno. Roedd yn ymddangos bod y cleient wedi setlo'n dda iawn yng Nghwmgelli ac roedd cyfathrebu da iawn gyda'r gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd iddo. Roedd pryderon wedi cael eu codi, a oedd wedi'u huwchgyfeirio'n briodol, a theimlwyd bod y materion hyn wedi'u datrys nawr.

3.10.3 Dywedodd perthynas eu bod nhw bob amser yn cael croeso yn y cartref a bod yr awyrgylch bob amser yn dda, er bod y staff yn aml yn brysur iawn.

3.10.4 Cafwyd trafodaeth a yw'r unigolyn yn meddwl am Gwmgelli fel eu cartref, a dywedodd y berthynas eu bod nhw'n credu hynny a'i fod yn llawer hapusach nag a fu yn y cartref blaenorol. Eglurwyd bod gan y berthynas gyfathrebu da gyda'r cartref, ond mae'n aml yn siarad â'i fab drwy gydol y dydd a bydd yn dweud popeth sy'n digwydd wrtho fe.

3.10.5 Dywedodd y berthynas fod y staff yn 'hollol wych' ac yn methu meddwl am unrhyw beth y gellid ei newid i wella'r gwasanaeth, ar wahân i gael staff ychwanegol. Teimlent y gallen nhw godi unrhyw bryderon gydag unrhyw aelod o staff a bydden nhw'n mynd yn syth at uwch aelod o'r tîm pe bai angen. Yr unig bryder wnaethon nhw godi oedd mewn perthynas â'r feddygfa oherwydd yr amser a gymerwyd am ymweliad â'r cartref.

4. Camau Gweithredu Cywirol / Datblygiadol

4.1 Cywirol

4.1.1 Dau eirda ysgrifenedig i'w cynnal ar gyfer pob aelod o staff, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr blaenorol, os oes un. **RISCA Fersiwn 2 (Ebrill 2019) - Atodlen 1, Rheoliad 35, Rhan 1(4)**

4.1.2 Pob ffeil staff i gynnwys ffotograff. **RISCA Fersiwn 2 (Ebrill 2019) - Atodlen 1, Rheoliad 35, Rhan 1(1)**

4.1.3 Pob aelod o staff i lenwi gwerthusiad blynyddol. **RISCA Fersiwn 2 (Ebrill 2019) - Rheoliad 36**

4.1.4 Asesiad cychwynnol/cynllun personol i fod ar waith ar gyfer pob cleient cyn cychwyn y gwasanaeth. **RISCA Fersiwn 2 (Ebrill 2019) - Rheoliad 15**

4.1.5 Gwybodaeth fanwl i'w chofnodi yn y cynlluniau personol ynghylch canlyniadau y cytunwyd arnyn nhw, sut mae'r rhain yn cael eu hadnabod, eu cynorthwyo, a'u hadolygu. **RISCA Fersiwn 2 (Ebrill 2019) - Rheoliadau 15, 18 a 21**

4.2 Datblygiadol

4.2.1 Argymhellir bod y datganiad o bwrpas yn cofnodi dyddiad yr adolygiad arfaethedig nesaf i dystiolaethu fod hyn yn cael ei gwblhau'n flynyddol, yn unol â RISCA Rheoliad 7.

4.2.2 Ystyriaeth i'w roi i ychwanegu'r dyddiad adolygu a'r adolygiad arfaethedig nesaf i bob polisi.

4.2.3 Y rheolwr i ystyried ychwanegu dyddiad llawn y cwrs hyfforddiant diwethaf i'r matrics a/neu pan fydd angen hyn nesaf.

4.2.4 Lle bo'n bosib, cyfweliadau i'w cynnal gyda dau aelod o staff.

4.2.5 Ystyried defnyddio ffotograffau er mwyn cynorthwyo â gwneud penderfyniadau gydag unigolion sydd â thrafferthion cyfathrebu.

5. Casgliad

5.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd yn bosibl i'r swyddog monitro contractau gerdded o amgylch y cartref yn ystod yr ymweliad, fodd bynnag, cynhaliwyd hyn fel rhan o gyfarfodydd blaenorol ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â'r amgylchedd nac ymddygiad staff. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro fel rhan o ymweliadau yn y dyfodol.

5.2 Roedd arsylwadau cyffredinol o'r cartref yn gadarnhaol: roedd y staff yn gyfeillgar ac yn dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a dewisiadau'r bobl oedd dan eu gofal. Roedd yr ardaloedd a welwyd yn lân, yn olau, ac yn groesawgar ac roedd adborth gan bob person a siaradwyd â nhw yn gadarnhaol.

5.3 Roedd atgyfeiriadau diogelu wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r cartref dros y flwyddyn flaenorol, a chydnabuwyd bod y cartref yn agored â phartïon allanol i geisio datrys unrhyw broblemau. Bu rhai heriau yng Nghwmgelli oherwydd trosiant staff, ond roedd y swyddog monitro contractau yn dawel ei meddwl bod y sefyllfa hon yn gwella ac mae cymorth ar gael gan uwch reolwyr.

5.2 Hoffai'r swyddog monitro contractau gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a oedd yn rhan o'r broses fonitro am eu hamser, eu cymorth, a'u lletygarwch. Oni ystyrir bod angen ei gwblhau o flaen llaw, bydd yr ymweliad monitro nesaf yn cael ei gwblhau ymhen tua deuddeg mis.

Awdur: Amelia Tyler
Swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiedig: 2il Tachwedd 2022

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i breswylwyr y dyfodol a/neu eu teuluoedd os ydyn nhw'n gofyn i'w gweld.